**PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU**

Cofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd yn Conference Room 1a, County Hall, Ruthin, Dydd Iau, 7 Gorffennaf 2016 am 9.30 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Martyn Holland, Pat Jones, Dewi Owens, Pete Prendergast a/ac Bill Tasker.

Roedd yr Aelod Arweiniol Bobby Feeley yn bresennol ar gais y Pwyllgor.

Roedd y Cynghorydd Alice Jones yn bresennol fel arsylwr.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS), Cydlynydd Archwilio (RE), Cynrychiolwyr BIPBC G. Lang, G. Evans a Dr. C. Stockport a’r Swyddog Gweinyddol (CIW).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Raymond Bartley, Meirick Davies a/ac Arwel Roberts.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Roedd y cysylltiadau canlynol wedi eu nodi yn eitemau busnes i gael eu hystyried yn y cyfarfod.

Eitem 5 ar y Rhaglen: Ysbyty Cymuned Gogledd Sir Ddinbych / Prosiect Cyfleuster Iechyd, ac Eitem 6 ar y Rhaglen: Prosiect Gofal Iechyd Sylfaenol Prestatyn a Rhuddlan Iach – Datganwyd cysylltiad personol gan y Cynghorydd J. Chamberlain-Jones gyda’r ddwy eitem ar y rhaglen. Y rheswm dros y datganiadau oedd bod perthynas i’r Aelod priodol o'r Pwyllgor yn cael ei gyflogi gan BIPBC.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

*Cafodd trefn y busnes ei hamrywio yn y fan hon er mwyn derbyn y cyflwyniadau gan swyddogion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC). Croesawyd Mr Geoff Lang (Cyfarwyddwr Strategaeth), Mr Gareth Evans (Cyfarwyddwr Ardal Gwasanaethau Clinigol – Ardal ganolog) a Dr. Chris Stockport, Cyfarwyddwr Meddygol (Ardal Ganolog) - i'r cyfarfod ar gyfer y drafodaeth ar eitemau busnes y Gwasanaeth Iechyd.*

## 4 YSBYTY CYMUNED GOGLEDD SIR DDINBYCH – PROSIECT CYFLEUSTER IECHYD

Cyflwynodd Mr Gareth Evans yr eitem hon yn rhinwedd ei swydd fel Cyfarwyddwr y Prosiect. Trwy gyflwyniad PowerPoint, rhoddodd fanylion ar y gwahanol gamau gofynnol yn y broses achos busnes i wireddu'r prosiect, gan esbonio eu bod bellach yn y cam Achos Busnes Amlinellol.

Byddai'r gwaith o baratoi'r Achos Busnes Amlinellol, a fyddai'n cynnwys nodi dewisiadau dylunio a datblygu'r safle a chynhyrchu'r achos busnes ei hun, yn parhau drwy gydol yr haf i'r hydref yn barod i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn hwyr yn 2016 neu'n gynnar yn 2017 am gymeradwyaeth i symud ymlaen i'r cam Achos Busnes Llawn. Yn ystod y cyflwyniad pwysleisiodd fod BIPBC wedi'i ymrwymo i gyflawni'r prosiect. Roedd cwmpas y prosiect wedi cael ei adolygu yn dilyn ymgynghoriad eang a byddai bellach yn cynnwys, ynghyd â gwasanaethau eraill, y ddarpariaeth ar gyfer mân anafiadau mewn uned a allai helpu i gefnogi gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol ehangach yn yr ardal, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a gwasanaethau iechyd rhywiol ar safle hen Ysbyty Brenhinol Alexandra y Rhyl.

Rhagwelwyd hefyd y byddai Gwasanaeth Pwynt Mynediad Sengl yn cael ei leoli ar y safle yn ogystal â Gwasanaeth Cleifion Allanol Iechyd Meddwl Pobl Hŷn. Fodd bynnag, er byddai 28 o welyau i gleifion mewnol ar y safle, ni fyddai unrhyw un o'r rhain ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl tymor hir. Roedd BIPBC wedi ymrwymo i gyflawni'r Prosiect ar safle hen Ysbyty Brenhinol Alexandra, er gwaethaf y cymhlethdodau o ailddatblygu adeilad rhestredig a'r premiwm cost sy'n gysylltiedig â'r gwaith, gan mai hwn oedd yr unig safle addas yn yr ardal.

Y cysyniad y tu ôl i'r prosiect oedd datblygu cyfleuster gwasanaeth iechyd modern a oedd yn gallu delio ag anghenion iechyd corfforol a meddyliol pobl hŷn, darparu gofal undydd brys lle bo angen, darparu gofal hygyrch ar gyfer cleifion allanol yn agosach i gartref y claf a lle'r oedd ystod o bartneriaid sy'n ymwneud ag iechyd a lles dinasyddion yn gweithio'n ddi-dor gyda'i gilydd er lles y claf, wrth ddarparu mynediad hefyd at wybodaeth am les ac atal.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, dywedodd swyddogion BIPBC:

- Byddai'r Achos Busnes Amlinellol yn cynnwys manylion ar sut y bwriada'r Bwrdd Iechyd gyflawni'r prosiect a'r amserlenni a ragwelir unwaith byddai'r Achos Busnes Llawn yn cael ei gymeradwyo;
- Byddai uned cleifion mewnol 28 gwely yn cael ei chynnwys yn yr Achos Busnes Amlinellol, fodd bynnag, nid oedd penderfyniad wedi'i wneud eto ar gyfluniad yr uned cleifion mewnol;
- Byddai cyfleusterau parcio ceir a threfniadau cludiant cyhoeddus i'r cyfleuster i gyd yn cael eu cynnwys yn yr Achos Busnes Amlinellol;
- Roedd Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol ym mis Medi 2013 ac roedd yn dal yn awyddus i weld y prosiect yn dwyn ffrwyth. Roedd £24 miliwn wedi'i ymrwymo gan Lywodraeth Cymru tuag at y prosiect ar y pryd. Oherwydd y treigl amser a newidiadau i frîff y prosiect yn dilyn ymgynghori gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid, byddai angen mireinio'r cyllid ar gyfer y prosiect hwn rhywfaint;

- Roedd strategaeth ymgysylltu yn y broses o gael ei llunio ar gyfer y diben o hysbysu preswylwyr a rhanddeiliaid ar gynnydd y prosiect;
- Byddai rhai rhanddeiliaid yn cymryd rhan yn y broses o lunio'r Achos Busnes Amlinellol;
- Byddent yn croesawu unrhyw syniadau gan gynghorwyr o ran cyfathrebu ac ymgysylltu â phreswylwyr ar gynlluniau'r cyfleuster;
- Unwaith y bydd y cyfleuster newydd yn weithredol, byddai gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael yn cael ei rhannu yn eang gyda phreswylwyr a rhanddeiliaid;
- Byddai staff sydd eisoes yn gweithio yn rhywle arall yn y gwasanaethau a fydd yn y pen draw ar gael yn safle Cyfleuster Gofal Iechyd Gogledd Sir Ddinbych yn cael eu trosglwyddo yno, tra byddai gwasanaethau 'newydd' yn destun ymgyrch recriwtio;
- Byddai materion yn ymwneud â'r agweddau ymarferol o ddefnyddio adeilad ysbyty Fictoraidd rhestredig ar gyfer arferion gofal iechyd modern, yn cael eu harchwilio yn drylwyr yn y cam Achos Busnes Amlinellol. Un opsiwn posibl fyddai defnyddio'r adeilad 'rhestredig' ar gyfer gweinyddu a gwaith arall nad yw'n llawfeddygol, gyda gwaith meddygol / llawfeddygol yn cael ei wneud mewn adeiladau modern o'r radd flaenaf;
- Gallai datblygu'r cyfleuster gofal iechyd hwn gael ei ddefnyddio fel glasbrint ar gyfer datblygu gwasanaeth gofal iechyd yn y dyfodol ar draws Gogledd Cymru;
- Byddai'r rhan fwyaf o wasanaethau a fyddai ar gael ar safle'r Rhyl yn wasanaethau ar gyfer ardal leol Gogledd Sir Ddinbych, gyda rhai o'r gwasanaethau mwy arbenigol ar gael ar gyfer poblogaeth ehangach Gogledd Cymru;
- Er y byddai'r safle yn gyfleuster iechyd yn bennaf, roedd cydnabyddiaeth eang y byddai'n lleoliad delfrydol i gyflawni gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles integredig;
- Byddai'r cyfleuster yn gwasanaethu poblogaeth Gogledd Sir Ddinbych, gyda'r ardal ddaearyddol yn cael ei diffinio'n gyffredinol fel yr ardal i'r gogledd o'r A55 tuag at y morlin gan gynnwys y Rhyl, Prestatyn, Llanelwy, Bodelwyddan, Dyserth a'u hardaloedd gwledig anghysbell;
- Byddai'r math o gyfleuster gofal iechyd sy'n cael ei gynllunio ar gyfer yr ardal yn ategu at fathau eraill o ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol megis trin cleifion o fewn eu cartrefi eu hunain a'u cefnogi i fyw'n annibynnol ac yn ddiogel am gyhyd ag y bo modd; ac
- Roeddent mewn cysylltiad rheolaidd â swyddogion cynllunio awdurdod lleol mewn perthynas â'r effaith bosibl ar y Gwasanaeth Iechyd o ganlyniad i gynigion y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer ardal Gogledd Sir Ddinbych.

Cyn casgliad y drafodaeth, gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd y bydd y Capel yn adeilad Ysbyty Brenhinol Alexandra yn cael ei gadw. Diolchodd y Cadeirydd i swyddogion y Bwrdd Iechyd am fynychu a briffio aelodau ar gynnydd y Prosiect, a:

***PHENDERFYNWYD**:-*

*(i) yn amodol ar y sylwadau uchod, i dderbyn y cyflwyniad ar Ysbyty Cymuned Gogledd Sir Ddinbych – Prosiect Cyfleuster Iechyd; a*

*(ii) bod adroddiad diweddaru pellach ar y Prosiect a chynhyrchu Achos Busnes Amlinellol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2016.*

## 5 PROSIECT GOFAL IECHYD SYLFAENOL PRESTATYN A RHUDDLAN IACH

Cyflwynodd Dr. Chris Stockport yr eitem a thrwy gyflwyniad PowerPoint rhoddodd ddarlun o'r ardal ddaearyddol a gwmpesir gan y gwasanaeth newydd.

Eglurodd fod y gwasanaeth yn darparu ystod o wasanaethau gofal iechyd i gleifion sydd wedi cofrestru mewn 5 meddygfa yn ardal Rhuddlan a Phrestatyn, ac yn darparu gwasanaethau i'w cleifion, yr oedd rhai ohonynt yn byw yn Sir Ddinbych ac eraill yn Sir y Fflint. Roedd BIPBC wedi bod yn cynllunio ar gyfer cyflwyno'r math hwn o gyfleuster gofal iechyd cyfannol yng Ngogledd Cymru ers peth amser. Serch hynny, roedd yn rhaid brysio i'w gyflwyno yn dilyn tri ymddiswyddiad contract meddygon teulu yn ardaloedd Prestatyn a Rhuddlan yn hwyr yn 2015, ddechrau 2016.

O ganlyniad i'r ymddiswyddiadau hyn, sefydlodd y Bwrdd Iechyd y prosiect Prestatyn a Rhuddlan Iach. Oherwydd cyfyngiadau amser a chyfyngiadau ymarferol, nid oedd pob agwedd ar y prosiect yn gwbl weithredol eto, ond o 1 Ebrill 2016 roedd gwasanaethau craidd wedi bod ar gael. Dywedodd Dr Stockport fod:

- 5 o'r partneriaid meddyg teulu blaenorol wedi cofrestru ar gyfer y prosiect ar sail barhaol a 5 o feddygon teulu eraill wedi ymuno â'r fenter. Roedd bob meddyg teulu bellach yn gyflogedig gan y Bwrdd Iechyd yn hytrach na phartneriaid yn y feddygfa;
- Yn ogystal, roedd aelodau eraill o staff naill ai wedi cael eu trosglwyddo i'r Prosiect neu wedi ymuno ag ef o rywle arall, roedd y rhain yn cynnwys Cydlynwyr Tîm (a wnaeth y gwaith gweinyddol a sicrhau bod y gweithwyr proffesiynol yn y lle cywir ar yr adeg gywir), ymarferwyr nyrsio, therapyddion galwedigaethol, fferyllwyr clinigol, ffisiotherapyddion ac awdiolegydd. Roedd cael ystod o sgiliau ar gael yn y prosiect wedi hwyluso'r gwaith o adlinio sgiliau a lleddfu pwysau ar feddygon teulu, fel y gallent nawr atgyfeirio cleifion at weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill â chymwysterau priodol yn ôl yr angen;
- Pwysleisiodd nad oedd yr holl atebion i ofal iechyd sylfaenol llwyddiannus yn gorwedd o fewn y GIG, roedd y Prosiect hwn wedi profi hyn ac roedd ei lwyddiant hyd yma o ganlyniad i'r dull partneriaeth effeithiol a fabwysiadwyd gan yr holl sefydliadau sector cyhoeddus a gwirfoddol a oedd yn ymwneud ag ef;

- Nid yw'r model sydd bellach yn gweithredu yn ardal Prestatyn a Rhuddlan yn fodel meddygol o ofal sylfaenol, ond yn hytrach yn fodel seicogymdeithasol lle'r oedd cleifion yn cael sicrhau apwyntiad ar y diwrnod y maent yn gwneud cyswllt cychwynnol â'r gwasanaeth, cyn belled â bod y cyswllt wedi'i wneud cyn 4pm. Roedd ffocws y gwasanaeth ar yr unigolyn ac unwaith yn y gwasanaeth, byddai cleifion yn cael eu dyrannu i dimau a allai reoli a chefnogi eu hanghenion;
- Roedd gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i sefydlu Academi gyda'r bwriad o ddatblygu sgiliau proffesiynol y staff yn lleol. Rhagwelwyd y byddai cangen lles yr Academi yn cael ei lansio yn y dyfodol agos ac roedd y posibilrwydd o sefydlu Campws Lles yn cael ei archwilio, o bosibl ar safle'r hen lyfrgell ym Mhrestatyn;
- Yn ystod Gorffennaf 2016 byddai rhywfaint o darfu ar wasanaethau arferol, gan fod y system TG ar gyfer pob safle yn cael eu mudo. Roedd cleifion wedi cael gwybod am hyn ac roedd trefniadau eraill wedi eu gwneud i ddelio ag ymholiadau ac ati yn ystod y cyfnod hwn; ac
- Roedd hen adeilad yr awdurdod lleol a chyfleusterau maes parcio cysylltiedig yn Nhŷ Nant wedi eu sicrhau fel cyfleuster ar gyfer y Gwasanaeth. Roedd gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i addasu'r adeilad ar gyfer gofynion y Gwasanaeth, er y bu rhywfaint o lithriant gyda'r gwaith hwn, roedd disgwyl i'r cyfleuster fod yn barod yn gynnar yn 2017

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, cadarnhaodd swyddogion y Bwrdd Iechyd:

- Ar hyn o bryd, roedd safle'r Feddygfa Ganolog ym Mhrestatyn yn gweithredu fel 'canolbwynt' y Gwasanaeth, ond roedd pob un o'r pum meddygfa'n dal i ddarparu gwasanaethau;
- Bod y dull partneriaeth a gymerwyd gyda'r prosiect hwn wedi gweithio'n dda ar lawr gwlad ac wedi bod yn allweddol i lwyddiant y prosiect gan ei fod wedi helpu i leddfu ofnau cychwynnol yn yr ardal, yn dilyn cyhoeddi ymddiswyddiadau contract meddygfeydd meddygon teulu;
- Bod nifer o ymarferwyr nyrsio a gafodd eu recriwtio'n meddu ar y cymwysterau angenrheidiol a oedd yn caniatáu iddynt ragnodi cyffuriau / triniaethau yn barod.
Roedd y rhai nad oedd yn meddu ar y cymwysterau hyn ar hyn o bryd yn y broses o weithio tuag atynt;
- Oherwydd bod y sylfaen sgiliau bellach ar gael o fewn y Gwasanaeth, roedd y gymhareb Meddyg Teulu i gleifion ar gyfer y gwasanaeth wedi newid;
- Bod Fflebotomi'n un o'r gwasanaethau y gellid cael mynediad ato fel rhan o'r prosiect;
- Mai un o amcanion y model newydd o ddarparu gwasanaethau oedd gwrando a deall achosion o afiechydon a phryderon cleifion, a'u cefnogi i gael mynediad i wasanaethau a fyddai'n gwella eu lles, a maes o law yn lleihau dibyniaeth ar feddyginiaeth ac ati

Diolchodd y Pwyllgor i'r Bwrdd Iechyd am ymgysylltu'n dda â phreswylwyr a'r awdurdod lleol mewn perthynas â'r Prosiect hwn, ac am friffio Cyngor Tref Prestatyn a Grŵp Ardal yr Aelodau'n rheolaidd ar ddatblygiad y prosiect. Felly:

***PENDERFYNWYD*** -

*(i) llongyfarch Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar lwyddiant prosiect Prestatyn a Rhuddlan Iach, ac*
*(ii) argymell bod modelau tebyg o ofal iechyd sylfaenol yn cael eu cyflwyno i ardaloedd eraill o Ogledd Cymru maes o law.*

## 6 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ddydd Iau, 26 Mai 2016.

***PENDERFYNWYD*** *– y dylid derbyn a chymeradwyo’r Cofnodion fel cofnod cywir.*

## 7 BYRDDAU DIOGELU GOGLEDD CYMRU

Cafodd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol (Gwasanaethau Plant ac Oedolion) yr adroddiad yn absenoldeb anrhagweledig y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau. Eglurodd mai dyma’r Adroddiad Blynyddol cyntaf ers sefydlu’r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, ac felly roedd ffocws yr adroddiad ar y cynnydd a wnaed gyda sefydlu'r trefniadau rhanbarthol. Roedd y Bwrdd Rhanbarthol yn Fwrdd Gweithredol, ac felly oherwydd ei ffocws gweithredol, cynrychiolydd Sir Ddinbych oedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau. Roedd yr Aelod Arweiniol yn gwasanaethu ar Fwrdd Diogelu Conwy a Sir Ddinbych, a oedd yn is-grŵp o’r Bwrdd Rhanbarthol.

Roedd cyflwyniad y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 wedi gosod diogelu oedolion ar yr un sail statudol â diogelu plant. Gyda'i chyflwyniad roedd nifer o wendidau o ran diogelu unigolion diamddiffyn wedi dod i'r amlwg. Roedd mynd i'r afael â'r gwendidau hyn yn ffurfio rhan o gylch gwaith y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.

Cyfeiriodd yr Aelodau at nifer o feysydd o fewn yr Adroddiad Blynyddol a oedd yn achosi pryder iddynt. Roedd y rhain yn ymwneud â rolau a chylchoedd gwaith y gwahanol is-grwpiau, swyddi heb eu llenwi ar fyrddau ac o fewn y strwythur staffio, costau rhedeg y Bwrdd, cyfraniad ariannol pob awdurdod lleol a'r enillion cysylltiedig ar fuddsoddiad. Oherwydd absenoldeb anorfod y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau o ran olaf y cyfarfod, gofynnodd y Pwyllgor fod y Cydlynydd Archwilio’n codi'r pryderon uchod gyda hi yn gofyn am ymateb ysgrifenedig i'r cwestiynau a godwyd. Felly:-

***PENDERFYNWYD****:-*

*(i) yn amodol ar y sylwadau uchod, derbyn Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru a Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru ar gyfer 2015/16; a*
*(ii) bod adroddiad pellach yn manylu ar y cynnydd a gyflawnwyd gyda datblygiad y Byrddau o fis Ebrill 2016 hyd yma’n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2017.*

## 8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei Raglen Gwaith i'r Dyfodol ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd copi o dempled 'ffurflen cynnig Aelodau" wedi'i gynnwys yn Atodiad 2, roedd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet wedi'i chynnwys fel Atodiad 3, ac roedd tabl yn crynhoi penderfyniadau diweddar y Pwyllgor ac yn cynghori ar gynnydd wrth eu gweithredu wedi'i atodi yn Atodiad 4.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i ddrafft o'i Raglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol, Atodiad 1, a chytunwyd ar y newidiadau a'r ychwanegiadau canlynol:-

6 Hydref, 2016:-

Cytunodd y Pwyllgor fod yr Aelodau Arweiniol, y Cynghorwyr H.H. Evans, J. Thompson-Hill a D. I. Smith yn cael eu gwahodd i fynychu'r cyfarfod ar gyfer y tair eitem a gynhwysir yn rhaglen gwaith y dyfodol y Pwyllgor.

24 Tachwedd 2016:-

Cytunodd y Pwyllgor i gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am Ysbyty Cymuned Gogledd Sir Ddinbych / Prosiect Cyfleuster Iechyd yn y rhaglen gwaith ar gyfer y dyddiad uchod a bod yr Aelodau Arweiniol, y Cynghorwyr R.L. Feeley a D.I. Smith yn cael eu gwahodd i fynychu'r cyfarfod ar gyfer eu heitemau busnes perthnasol.

19 Ionawr, 2017:-

Nododd yr aelodau y cytunwyd bod adroddiad diweddaru mewn perthynas â Byrddau Diogelu Gogledd Cymru yn cael eu cynnwys yn rhaglen gwaith y dyfodol y Pwyllgor ar gyfer mis Ionawr, 2017.

Ar gais y Cadeirydd, cytunwyd cynnwys eitem ar y rhaglen mewn perthynas â gwasanaethau sy'n ymwneud â Mamolaeth, Gynaecoleg a Chanolfan Gofal Dwys Newydd-anedig Is Ranbarthol (SuRNICC), a Gwasanaethau Tu Allan i Oriau yn rhaglen gwaith y dyfodol y Pwyllgor ar gyfer cyfarfod Mawrth 2017. Cytunodd yr Aelodau hefyd bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i drefniadau ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor ymweld â'r cyfleusterau newydd yn Ysbyty Glan Clwyd.

Hysbyswyd yr Aelodau fod y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio wedi cyfarfod ar 28 Mehefin, 2016 ac nad oedd unrhyw eitemau wedi eu cyfeirio at y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ar gyfer ystyriaeth.

Cyfeiriodd y Cydlynydd Archwilio at Adroddiad Gwybodaeth Cymunedau yn Gyntaf Gogledd Sir Ddinbych, a oedd wedi'i gynnwys gyda'r Brîff gwybodaeth a gylchredwyd cyn y cyfarfod. Roedd adroddiad wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 30 Gorffennaf, 2015, pryd y cytunwyd bod adroddiad gwybodaeth

yn cael ei ddosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor yn dilyn cyfnod o ddeuddeg mis. Cytunodd yr aelodau, yn dilyn derbyn adroddiad gwybodaeth, bod adroddiad cynnydd manwl pellach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2017.

Atgoffwyd yr Aelodau am y Digwyddiad Hyfforddiant Archwilio a drefnwyd ar gyfer dydd Iau, 14 Gorffennaf 2016. Gofynnwyd i Aelodau hysbysu'r Cydlynydd Archwilio am eu bwriad i fynychu'r digwyddiad erbyn 8 Gorffennaf, 2016. Cadarnhaodd y Cynghorwyr P.M. Jones a W.N. Tasker y byddent yn bresennol.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD*** *- yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith fel y caiff ei hamlinellu yn Atodiad 1 yr adroddiad.*

## 9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Roedd y Cynghorydd P. Prendergast wedi mynychu cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Esboniodd, er mwyn cwrdd â chyfyngiadau cyllideb, byddai ymgynghoriad yn cael ei gynnal ynghylch y posibilrwydd o symud tendr tân o Orsaf Dân Wrecsam. O dan amgylchiadau o'r fath, cadarnhawyd y byddai'r Swyddogion Tân perthnasol yn derbyn hyfforddiant priodol.

Cadarnhaodd y Cynghorydd M.L. Holland wrth yr Aelodau fod cyfarfod y Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol wedi'i ganslo oherwydd diffyg cynrychiolaeth Undeb. Eglurodd ei fod wedi mynychu cyfarfod o'r Gweithgor Trechu Tlodi a thrafodwyd materion yn ymwneud â darparu Grwpiau Brecwast ar gyfer plant. Cytunodd y Cynghorydd Holland i anfon manylion y cyfarfod ymlaen at y Cynghorydd B. Mellor, Cadeirydd Grŵp Aelodau Ardal y Rhyl.

***PENDERFYNWYD -*** *bod y Pwyllgor yn derbyn a nodi'r adroddiad yn amodol ar yr uchod.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.40pm.